



CYNNWYS

| | |
|-----------|----------------------------------|
| 3 | Rhagarweiniad |
| 5 | 7 egwyddor cefnogaeth effeithiol |
| 6 | Mae ein dull yn glir |
| 9 | Mae lles yn cael ei gefnogi |
| 12 | Cyflawnir i'r eithaf |
| 15 | Mae trawsnewid yn effeithiol |
| 18 | Mae plant yn cael llais |
| 21 | Mae rhieni'n rhan o'r broses |
| 24 | Mae staff yn wybodus |

Pecyn Cymorth Bywydau Llewyrchus

Cynhaliodd Cynghrair Cynnydd Plant y Lluoedd Arfog ymgynghoriad ar raddfa fawr ledled y DU, a oedd yn dweud wrthym fod gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog eisiau cael gwell cysylltiad: gyda'i gilydd, gyda thystiolaeth a chefnogaeth. Mae'r Pecyn Cymorth Bywydau Llewyrchus yn ymateb yn uniongyrchol i'r angen hwn.

Roedd ymchwil annibynnol, ledled y DU a gynhaliwyd gan y Ganolfan Ryngwladol dros Astudiaethau Cyfarwyddyd (iCeGS) ym Mhrifysgol Derby yn cynnwys:

- Adolygiad llenyddiaeth
- Arolygon lle bu 493 o ysgolion yn cymryd rhan
- Ymchwiliadau manwl o sawl astudiaeth achos gyda phlant y Lluoedd Arfog, uwch arweinwyr, athrawon a staff cymorth. Dewiswyd yr ysgolion yn benodol i ddarparu cydbwysedd o blant oed cynradd ac uwchradd, cyfrannau o blant y Lluoedd Arfog (o isel iawn i uchel), wrth wasanaethu'r tri Gwasanaeth rhyngddynt.

Nododd yr ymchwil saith egwyddor ar gyfer ymarfer effeithiol a fframwaith i helpu ysgolion i bwyso a mesur ar sail tystiolaeth a phennu blaenoriaethau gwella. Nid yw ymchwil yn nodi unrhyw egwyddor i fod yn fwy pwysig nag unrhyw un arall. Mae'n bwysig ystyried pob un o'r saith.

Mae'r pecyn cymorth wedi cael ei brofi'n helaeth ledled y DU ac mae grŵp llywio o randdeiliaid wedi penderfynu ar y derminoleg sy'n cael ei defnyddio drwyddo draw, yng ngoleuni gwahaniaethau ar draws y gwledydd. 'Plant y Lluoedd Arfog' yw'r term sy'n taro tant ledled y DU tra bod 'plant Milwyr' yn llai cyffredin yn yr Alban.

Partneriaeth

Mae Cynghrair SCiP yn bartneriaeth o bobl sy'n cefnogi addysg a llwyddiant plant y Lluoedd Arfog. Mae partneriaeth yn hanfodol i fodolaeth y Gynghrair, ond mae hefyd yn ymrwymiad i ffordd o weithio. Mae gweithio drwy'r saith egwyddor ar gyfer ymarfer effeithiol yn llinyn o gydweithio ystyrlon ac agored gyda phawb sydd â rhan mewn cefnogi plant y Lluoedd Arfog i ffynnu.

Seiliedig ar asedau

Mae gan Gynghrair SCiP ddull gweithredu sy'n seiliedig ar asedau. Mae'n golygu ein bod yn dechrau gyda'r cryfderau ac yn canolbwyntio ar sut i adeiladu arnyn nhw. Nid yw'n golygu osgoi problemau neu anwybyddu materion, ond yn hytrach mae'n ein herio i ganolbwyntio ar atebion ac i beidio byth â gwneud y plant eu hunain yn broblem sydd angen ei datrys. Fel pob plentyn, mae gan blant y Lluoedd Arfog botensial enfawr, ac mae eu profiadau yn cynnig cyfleoedd gwych i ffynnu.

Seiliedig ar dystiolaeth

Mae Cynghrair SCiP yn dechrau gyda'r dystiolaeth orau sydd ar gael. Mae'r ymchwil gadarn sy'n sail i'r Pecyn Cymorth Bywydau Llewyrchus yn rhoi mwy o hyder y gall yr hyn a wnawn fod yn effeithiol. Ni allwn byth wybod popeth y mae angen i ni ei wybod, ond gyda barn broffesiynol wybodus a ffocws di-ildio ar y plentyn, mae sylfaen dystiolaeth gadarn yn helpu i ddarparu sylfaen lle gall plant y Lluoedd Arfog ffynnu.

Sut i asesu eich ymarfer

| Ymarfer sy'n dod i'r amlwg | Ymarfer sy'n datblygu | Gwreiddio ymarfer |
|--|--|--|
| Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwyso a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach | Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd | Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith |

Cyngor gan Ysgolion Eraill

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn gan Gynghrair SCiP mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaethau Uni Connect. Cafodd y Pecyn Cymorth ei beilota mewn amrywiaeth o ysgolion yn 2020. Bu swyddogion gwerthuso mewn chwe phartneriaeth Uni Connect, dan arweiniad Higher Horizons ym Mhrifysgol Keele, yn dadansoddi adborth gan ysgolion ac yn cynnig argymhellion a oedd yn gwella'r cynnwys a'r fformat. Roedd yr ysgolion yn y cynllun peilot yn amrywio o'r rheini â chyfran uchel o blant y Lluoedd Arfog i'r rheini sydd â dim ond ychydig o blant. Roedd ysgolion peilot yn gwasanaethu teuluoedd o'r Fyddin, yr Awyrlu Brenhinol a'r Llynges Frenhinol mewn sawl lleoliad gwahanol. Roedd yr holl gyfranogwyr wedi argymhell bod ysgolion eraill sy'n addysgu plant y Lluoedd Arfog yn defnyddio'r adnodd hwn i ystyried eu cefnogaeth i blant y Lluoedd Arfog.

Roedd Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog yn ariannu ymchwil gwella a gwerthuso effaith ledled y DU yn 2021, ac ar sail hynny cafodd y Pecyn Cymorth sylfaenol ei ddiweddarau.

Mae ymgynghori helaeth ag ysgolion yn cadarnhau bod yr offeryn yn ymarferol iawn a bydd yn eich cefnogi nid yn unig i benderfynu ar eich strategaeth gyffredinol, ond ar gamau gweithredu penodol hefyd. Mae ysgolion yn awgrymu eich bod yn trefnu amser ar ei gyfer yn rheolaidd, gan ei ddefnyddio fel sail i weithgarwch cynllunio a diagnostig.

Mae llawer o ysgolion wedi tynnu sylw at ba mor ddefnyddiol ydyw wrth ddatblygu dogfennau a strategaethau llywodraethu.

Mae ysgolion yn awgrymu eich bod yn defnyddio'r pecyn cymorth hwn nid yn unig i gofnodi eich meddyliau eich hun, ond fel offeryn cyfathrebu a chydweithio yn yr ysgol ac mewn sgysiau ag eraill, fel awdurdodau lleol neu dimau arolygu.

Mae ysgolion yn nodi potensial y Pecyn Cymorth i ddarparu mecanwaith i ysgolion rannu ymarfer, i ddatblygu gweithgarwch ar y cyd neu i gydweithio ar geisiadau am gyllid.



Egwyddor

Gweledigaeth

7 egwyddor
cefnogaeth effeithiol

| | | |
|----------|------------------------------|--|
| 1 | Mae ein dull yn glir | Mae dealltwriaeth a dull gweithredu'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau a pholisïau'n gwella canlyniadau plant y Lluoedd Arfog. |
| 2 | Mae lles yn cael ei gefnogi | Mae darpariaeth fugeiliol wedi'i theilwra yn cefnogi iechyd meddwl a lles plant y Lluoedd Arfog. |
| 3 | Cyflawnir i'r eithaf | Mae addysgu, asesu a chefnogi yn sicrhau parhad dysgu a chynnydd plant y Lluoedd Arfog. |
| 4 | Mae trawsnewid yn effeithiol | Mae systemau a chefnogaeth yn sicrhau trawsnewid di-dor i blant y Lluoedd Arfog sy'n cyrraedd ac yn gadael yr ysgol. |
| 5 | Mae plant yn cael llais | Mae lleisiau amrywiol plant y Lluoedd Arfog yn cael eu clywed ac yn sail i'r gefnogaeth maen nhw'n ei chael. |
| 6 | Mae rhieni'n rhan o'r broses | Mae partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol yn helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o gymuned yr ysgol. |
| 7 | Mae staff yn wybodus | Mae rhwydweithiau a hyfforddiant cefnogol yn sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn cefnogi pob plentyn yn y Lluoedd Arfog. |

Mae dealltwriaeth a dull gweithredu'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau a pholisïau'n gwella canlyniadau plant y Lluoedd Arfog.

Mae tystiolaeth yn awgrymu:

- *Bod polisiau clir ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol gref o fywyd plentyn y Lluoedd Arfog ar lefel strategol ysgol yn allweddol i gefnogaeth effeithiol*
- *Agwedd ganolog ar dryloywder a chefnogaeth ysgol yw'r defnydd o adnoddau a dargedir, gan gynnwys unrhyw gyllid penodol lle mae ar gael*
- *Mae monitro canlyniadau plant y Lluoedd Arfog ac effaith gwariant a gweithgarwch yn gallu gwella effeithiolrwydd y gefnogaeth*
- *Mae 6 chwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried*



Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Bod â strategaeth glir ar gyfer targedu'r defnydd o unrhyw gyllid penodol
- Cyhoeddi strategaeth benodol ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, er enghraifft drwy wefan yr ysgol
- Gwerthuso effaith strategaeth benodol, gan ei newid pan ystyrir nad yw'n rhoi gwerth da am arian
- Monitro ac adrodd ar ganlyniadau plant y Lluoedd Arfog
- Cofnodion cyrff llywodraethu (Cymru a Lloegr) neu Gyngorau Rhieni (yr Alban) yn rhoi tystiolaeth o'r her o ran cynnydd academiaidd, cyflawniad a lles plant y Lluoedd Arfog
- Mae strategaeth ac arweinyddiaeth yn seiliedig ar leisiau plant y Lluoedd Arfog
- Cyswllt â staff penodol

Engbreiffiau o ymarfer:

"Rydym yn cael cyllid gan y Gronfa Cymorth Addysg i gyflogi cynorthwywyr cymorth dysgu'r Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan iddi."

(Cydlunydd Ysgolion y Weinyddiaeth Amddiffyn, Ysgol Uwchradd, Cymru)

"Mae penodi Swyddog Cyswllt Teuluoedd y Lluoedd Arfog wedi bod o fudd mawr i blant a theuluoedd ein Lluoedd Arfog, gan ddarparu cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref."

(Uwch arweinydd, ysgol gynradd, Lloegr)

"Amser i staff fod yn gysylltiedig â grŵp clwstwr lleol ar gyfer teuluoedd y Lluoedd Arfog; costau trafndiaeth i Blant y Lluoedd Arfog gymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir gan y clwstwr; a bob hanner tymor bydd plant y Lluoedd Arfog yn ein hysgol ni a'r ysgol gynradd gyfagos yn cyfarfod." (Uwch arweinydd, ysgol gynradd gyda 2 ddisgybl ar y gofrestr, Lloegr)

Ymarfer sy'n dod i'r amlwg Ymarfer sy'n datblygu Gwreiddio ymarfer

Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwysu a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach

Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd

Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>1.1 - I ba raddau mae pawb sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth, llywodraethu a chefnogi plant y Lluoedd Arfog yn ymwybodol o gyllid ac adnoddau eraill sydd ar gael i gefnogi plant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>1.2 - I ba raddau ydych chi'n monitro sut mae cyllid penodol yn cael ei wario?</p> | | | | | | |
| <p>1.3 - I ba raddau mae cefnogaeth yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei monitro am ei heffeithiolrwydd?</p> | | | | | | |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>1.4 - I ba raddau mae lleisiau teuluoedd y Lluoedd Arfog a chynrychiolaeth y Lluoedd Arfog yn sail i'r rheini sy'n gyfrifol am arweinyddiaeth, llywodraethu a chefnogi plant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>1.5 - I ba raddau mae'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ysgolion yn sicrhau bod canlyniadau plant y Lluoedd Arfog yn cael eu monitro a bod cefnogaeth briodol yn cael ei rhoi?</p> | | | | | | |
| <p>1.6 - I ba raddau mae eich trefniadau derbyn yn ystyried symudiadau cyson, tymor canolig a byr rybudd teuluoedd y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | |

Mae tystiolaeth yn awgrymu:

- **Bod darparu cefnogaeth fugeiliol i blant y Lluoedd Arfog yn flaenoriaeth**
- **Bod amgylchedd ysgol sy'n ymwybodol o brofiadau plant y Lluoedd Arfog yn gallu hyrwyddo datblygiad cadarnhaol**
- **Efallai y bydd angen cefnogaeth ychwanegol ar blant y Lluoedd Arfog yn ystod cyfnodau o drawsnewid a diffyg parhad**
- **Bod 5 cwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried**



Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Cyfleoedd i blant y Lluoedd Arfog drafod eu profiadau a'u teimladau gyda phlant eraill y Lluoedd Arfog mewn clybiau fel y rhai a hwylusir gan rwydwaith Arwyr MKC
- Ymgysylltu â rhieni i fod yn ymwybodol o'r lleoliadau sydd ar y gweill
- Cefnogi plentyn i ymchwilio a mapio lleoliad rhiant sydd ar leoliad neu sy'n dychwelyd ar benwythnosau
- Manteisio ar unrhyw gyfleoedd yn y cwricwlwm i gefnogi plant a'u cyfoedion i ddeall lle mae rhiant sydd ar leoliad
- Gwreiddio dealltwriaeth o'r Lluoedd Arfog yn y cwricwlwm
- Sicrhau bod yr holl staff yn deall ystod o brofiadau ac emosiynau posibl plant y Lluoedd Arfog yn ystod y gwahanol gyfnodau o leoli a gwahanu
- Trefnu adnoddau i deuluoedd gynnal cysylltiadau yn ystod cyfnodau o wahanu

Engbrefftau o ymarfer:

"Mae llawer o bobl rydw i'n gallu siarad â nhw. Rydym yn gallu holi cwestiynau i'n hathro lles ac mae'n cadw golwg arnom ni, ac mae'n rhoi taflenni gweithgarwch i ni i drafod ein teimladau."

(Plentyn y Lluoedd Arfog, Ysgol Uwchradd, Cymru)

"Mae ein ELSA ... yn darparu 'Clwb Hwyl y Lluoedd Arfog' ar ôl yr ysgol. Maent hefyd yn cyfarfod yn wythnosol gydag unrhyw blentyn sydd â rhiant ar leoliad ac yn ei gefnogi i ysgrifennu llythyr."

(Uwch arweinydd, ysgol gynradd, Lloegr)

"Mae pob plentyn sydd â rhiant yn mynd i ffwrdd yn cael 'dol wedi'i gwau' o'r rhiant ac mae gan y rhiant 'blentyn' bach wedi'i wau."

(Uwch arweinydd, ysgol gynradd, Lloegr)

Ymarfer sy'n dod i'r amlwg Ymarfer sy'n datblygu Gwreiddio ymarfer

Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwysu a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach

Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd

Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| 2.1 - I ba raddau ydych chi'n creu cyfleoedd i blant y Lluoedd Arfog gwrdd, ac archwilio profiadau gyda'i gilydd? | | | | | | dd/mm/yyyy |
| 2.2 - I ba raddau mae eich cefnogaeth fugeiliol yn seiliedig ar leisiau plant y Lluoedd Arfog? | | | | | | |
| 2.3 - I ba raddau mae gennych fecanweithiau i ddarparu cefnogaeth wedi'i theilwra pan fydd ar blant y Lluoedd Arfog ei hangen, gan sicrhau na thynnir sylw at hynny'n ddiangen? | | | | | | |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>2.4 - I ba raddau mae cefnogaeth fugeiliol yn ystyried adegau o straen gan gynnwys rhiant ar leoliad/rhiant sy'n dychwelyd ar benwythnosau, symudiadau ysgol a chyfrifoldebau gofalu?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>2.5 - I ba raddau ydych chi'n meithrin hunaniaeth plant y Lluoedd Arfog, ac yn eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu deall?</p> | | | | | | |

Mae tystiolaeth yn awgrymu:

- Bod ymrwymiad i gefnogi plant y Lluoedd Arfog i sicrhau'r lefelau cyflawniad personol gorau posibl yn flaenoriaeth
- Effeithiau trawsnewid ar gyrhaeddiad mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys amhariad yn sgil symud, diffyg cysondeb o ran pynciau a byrddau arholi, cwricwlwm coll a'r cwricwlwm sy'n cael ei ailadrodd
- Gall effaith emosiynol a straen lleoli a gwahanu ar blant y Lluoedd Arfog effeithio ar gyrhaeddiad academaidd
- Mae 6 chwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried



Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Asesu'r rhai sy'n cyrraedd o'r newydd, gan ystyried yr angen am ymdeimlad o ddiogelwch cyn cynnal asesiadau
- Asesu a monitro parhaus
- Sicrhau bod ffocws cryf yn cael ei roi ar sicrhau bod iechyd a lles emosiynol plentyn y Lluoedd Arfog yn cael cefnogaeth, cyn cyflawniad academaidd
- Cefnogaeth un-i-un neu sesiynau dal-i-fyny
- Sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn cael cynnig cefnogaeth gyrfaoedd ychwanegol a'u bod yn dod i gysylltiad â llwybrau amgen
- Cefnogaeth i ddatblygu ac arddangos cryfderau
- Deall y darlun cenedlaethol o gyflawniad plant y Lluoedd Arfog a'r hyn mae'n ei olygu i'ch dull gweithredu
- Cefnogaeth dal i fyny i fynd i'r afael â bylchau yn y cwricwlwm
- Cefnogaeth i fanteisio ar gyfleoedd allgyrsiol

Engbreiffiau o ymarfer:

“Mae'r pennaeth cynhwysiant yn caniatáu cyfnod sefydlu o lai na mis cyn cwrdd â rhieni a disgyblion a chymryd gwybodaeth gan staff i drafod unrhyw fylchau. Dal i fyny ar ffurf gwaith cartref amgen.”

(Uwch arweinydd, ysgol ganol, Lloegr)

“Rydw i'n cael gwersi dal i fyny Cymraeg ac maen nhw wedi rhoi geiriadur i mi i'm helpu, sydd gen i drwy'r amser.”

(Plentyn y Lluoedd Arfog, Ysgol Uwchradd, Cymru)

“Byddwn yn ceisio dathlu pwnc mae myfyriwr newydd wedi ymdrin ag ef nad ydym yn ei wneud, felly byddwn yn gofyn iddyn nhw siarad â'r dosbarth am y thema honno.”

(Athro, ysgol gynradd, Lloegr)

Ymarfer sy'n dod i'r amlwg Ymarfer sy'n datblygu Gwreiddio ymarfer

Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwyso a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach

Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd

Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>3.1 - I ba raddau ydych chi'n asesu ar fynediad ac yn monitro cyflawniad plant y Lluoedd Arfog, y bylchau dysgu a'r dewisiadau sydd orau ganddynt, yr anghenion cefnogi, y diddordebau a'r sgiliau?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>3.2 - I ba raddau ydych chi'n mynd i'r afael â bylchau ac yn lliniaru problemau gyda diffyg parhad cymwysterau a'r cwricwlwm?</p> | | | | | | |
| <p>3.3 - I ba raddau ydych chi'n olrhain ac yn adolygu canlyniadau a chynnydd plant y Lluoedd Arfog yn rheolaidd, ac yn teilwra cefnogaeth mewn ymateb?</p> | | | | | | |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|--|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>3.4 - I ba raddau ydych chi'n mynd i'r afael ag anghenion cymorth dysgu ychwanegol plant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>3.5 - I ba raddau ydych chi'n dathlu dysgu blaenorol ac yn helpu plant y Lluoedd Arfog i wneud y gorau o'u cryfderau?</p> | | | | | | |
| <p>3.6 - I ba raddau ydych chi'n darparu cefnogaeth gyrfaoedd a gwneud penderfyniadau wedi'i theilwra ar gyfer plant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | |

4 Mae trawsnewid yn effeithiol

Mae systemau a chefnogaeth yn sicrhau trawsnewid di-dor i blant y Lluoedd Arfog sy'n cyrraedd ac yn gadael yr ysgol.



Mae tystiolaeth yn awgrymu:



- Bod gweithdrefn drawsnewid gadarn a chefnogol ar gyfer disgyblion sy'n mynd i'r ysgol ac yn gadael yr ysgol yn flaenoriaeth
- Nid yn unig y gall plant y Lluoedd Arfog symud mwy na phlant nad ydynt yn rhan o'r Lluoedd Arfog, ond mae llawer yn symud yng nghanol y flwyddyn ysgol
- Mae angen cefnogaeth fugeiliol bwrpasol ar blant y Lluoedd Arfog er mwyn trawsnewid dro ar ôl tro
- Gall cefnogaeth ragweithiol a phwrpasol fod yn arbennig o bwysig i blant ag anghenion addysgol penodol
- Mae 6 chwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried

Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Adnabod plant y Lluoedd Arfog wrth iddynt ddod i mewn drwy brosesau derbyn
- Adnabod plant presennol y Lluoedd Arfog drwy geisiadau i rieni am wybodaeth wedi'i diweddarau
- Eitem sefydlog yn y cyfarfod staff am blant y Lluoedd Arfog ac unrhyw un sy'n ymuno â'r ysgol neu'n gadael
- Cysylltu ag ysgol flaenorol neu ysgol nesaf plant y Lluoedd Arfog
- Prosesau i sicrhau bod y diwrnod cyntaf yn mynd yn arbennig o ddiraffferth a bod plentyn y Lluoedd Arfog yn teimlo ei fod yn cael ei groesawu, fel system gyfeillio (ar gyfer plant a rhieni) a gwybodaeth glir ar gyfer y plentyn a'r rhieni
- Polisi symudedd clir sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd
- Arferion gadael a chyrraedd, fel caneuon yn y gwasanaeth neu lyfrynnau atgofion arbennig i'w cadw
- Byrddau arddangos i'r plant sy'n cyrraedd a gadael, gyda ffotograffau a negeseuon cadarnhaol

Engbreiffiau o ymarfer:

“Bydd ein ELSA yn ymweld â disgyblion yn y lleoliad presennol lle bo hynny'n bosibl ac yn cael sgysiau gyda'r ysgol bresennol i gael dealltwriaeth o'r plentyn.”

(Uwch arweinydd, ysgol gynradd, Lloegr)

“Rydw i eisiau cael fy adnabod fel rhan o'r gymuned. Mae gen i rywbeth i'w gynnig. Mae'n braf iawn bod yn blentyn milwrol hŷn, yn helpu'r rhai iau i wybod bod pobl fel fi o gwmpas.”

(Plentyn y Lluoedd Arfog, Ysgol Uwchradd, yr Alban)

“Mae'r system gyfeillio yn helpu. Mae'n gwneud i chi gael ffrind yn awtomatig.”

(Plentyn y Lluoedd Arfog, ysgol uwchradd, Lloegr)

| Ymarfer sy'n dod i'r amlwg | Ymarfer sy'n datblygu | Gwreiddio ymarfer |
|--|--|--|
| Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwyso a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach | Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd | Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|--|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| 4.1 - I ba raddau mae eich ysgol yn adnabod plant y Lluoedd Arfog? | | | | | | dd/mm/yyyy |
| 4.2 - I ba raddau ydych chi'n gweithio gyda theuluoedd sy'n gadael a theuluoedd sy'n dod i mewn drwy'r broses drawsnewid hir? | | | | | | |
| 4.3 - I ba raddau ydych chi'n croesawu teuluoedd, cyn ac ar ôl eu symudiadau, ac yn sicrhau profiad cadarnhaol o'r diwrnod cyntaf? | | | | | | |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>4.4 - I ba raddau ydych chi'n gweithio gydag ysgolion blaenorol neu ddyfodol plentyn y Lluoedd Arfog i drosglwyddo cofnodion a chael gwybod am ddysgu, lles, cyflawniadau, diddordebau, sgiliau a'u cyd-destun teuluol?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>4.5 - I ba raddau ydych chi'n lleihau diffyg parhad mewn cefnogaeth ychwanegol, er enghraifft drwy leihau'r ailasesiad o anghenion?</p> | | | | | | |
| <p>4.6 - I ba raddau ydych chi'n helpu plant y Lluoedd Arfog i feithrin perthnasoedd newydd a chynnal perthnasoedd sy'n bodoli eisoes?</p> | | | | | | |

Mae tystiolaeth yn awgrymu:

- Mae'n hanfodol bod plant y Lluoedd Arfog yn cael eu clywed a bod cymorth yn cael ei wella'n gyson yng ngoleuni'r dysgu
- Mae plant y Lluoedd Arfog yn elwa o gymryd rhan weithredol mewn datblygu cymorth
- Gall methu â gwranddo arwain at ymdeimlad o unigedd
- Mae 5 cwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried



Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Gwneud trefniadau penodol ym mhob corff cynrychioli myfyrwyr i sicrhau bod lleisiau plant y Lluoedd Arfog yn cael eu clywed
- Plant y Lluoedd Arfog yn ymwneud â fforymau a grwpiau cymunedol lleol y Lluoedd Arfog
- Hwyluso'r broses o rannu profiadau plant y Lluoedd Arfog drwy gelf fel drama, llyfrau lluniau ac arddangosfeydd poster
- Dulliau i'r ysgol gasglu barn aelodau o grwpiau cefnogi plant y Lluoedd Arfog
- Galluogi cyfranogiad mewn cynadleddau a fforymau ar gyfer plant y Lluoedd Arfog sy'n cael eu rhedeg gan Awdurdodau Lleol, elusennau'r Lluoedd Arfog a phrifysgolion
- Defnyddio arolygon i gasglu adborth gan deuluoedd am weithdrefnau cynefino, pryderon a phrosesau'r ysgol
- Sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn teimlo eu bod â llais drwy ddogfennu a dathlu sut mae eu safbwyntiau'n cyfrannu at newid

Engbreiffiau o ymarfer:

"Rydyn ni'n cynnal diwrnodau gweithgareddau lle rydyn ni'n ymgysylltu â'r gymuned, yn rhannu straeon y plant, yn sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac yn rhannu sut beth yw eu bywydau."

(Athro cefnogaeth y Lluoedd Arfog, Ysgol Gynradd, yr Alban)

"Fe wnaethon ni greu sesiynau celf yn seiliedig ar ddiwrnod ym mywyd plentyn y Lluoedd Arfog, modelau rôl a lle. Yna, fe wnaethom ddatblygu grwpiau ffocws yn seiliedig ar y pynciau a oedd wedi deillio o'r meysydd trafod hyn."

(Arweinydd prosiect cynradd Stories Outside The Wire, Lloegr)

"Rydym yn dathlu ac yn cydnabod y teimladau aruthrol o falchder mae plant yn ei deimlo am eu rhieni."

(Cydllynydd AAA, ysgol gynradd, Lloegr)

| Ymarfer sy'n dod i'r amlwg | Ymarfer sy'n datblygu | Gwreiddio ymarfer |
|--|--|--|
| Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwysu a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach | Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd | Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| 5.1 - I ba raddau mae plant y Lluoedd Arfog yn cael eu cynrychioli yn yr ysgol a fforymau eraill? | | | | | | dd/mm/yyyy |
| 5.2 - I ba raddau mae lleisiau plant y Lluoedd Arfog yn sail i'ch strategaethau, eich dull gweithredu a'ch camau gweithredu drwy'r ysgol? | | | | | | |
| 5.3 - I ba raddau mae plant y Lluoedd Arfog yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u deall? | | | | | | |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|--|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>5.4 - I ba raddau ydych chi'n gweithredu ar adborth a syniadau gan blant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>5.5 - I ba raddau ydych chi'n monitro ac yn cyfleu eich camau gweithredu mewn ymateb i wrando ar blant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | |

Mae partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol yn helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o gymuned yr ysgol.

Mae tystiolaeth yn awgrymu:

- Bod ymrwymiad i weithio'n effeithiol gyda theuluoedd y Lluoedd Arfog yn flaenoriaeth
- Mae perthynas agos gyda rhieni yn galluogi ysgol i ddeall sefyllfa'r teulu a'r lleoliad, y gwahanu neu'r symud sydd ar y gweill
- Mae angen empathi, cyfathrebu a chydweithio â theuluoedd er mwyn meithrin hyder yn narpariaeth yr ysgol
- Mae 5 cwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried



Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Gweithdai i rieni
- Grwpiau cefnogi teuluoedd y Lluoedd Arfog
- Adnabod a chefnogi iechyd a lles emosiynol rhieni
- Cyfathrebu rhithiol â'r rhiant 'oddi cartref'
- Cyflogi swyddog cyswllt teuluoedd y Lluoedd Arfog
- Adnabod a chefnogi gofalwyr ifanc yn nheuluoedd y Lluoedd Arfog
- Cefnogi teuluoedd gyda strategaethau ymddygiad cyson
- Cyfeirio teuluoedd at ffynonellau eraill o gefnogaeth
- Ymwybyddiaeth o amgylchiadau teuluol
- Croeso cadarnhaol clir i deuluoedd newydd y Lluoedd Arfog

Enghreiffiau o ymarfer:

"Mae ymgysylltiad agos â rhieni yn golygu ein bod ni'n gwybod pryd mae gwahanu/rhiant ar leoliad yn debygol, a gallwn gefnogi, os oes angen." (Teacher, primary school, England)

"Rydym wedi gwneud llawer o waith gyda theuluoedd pan ddaw dad adref; rydym wedi eistedd i lawr mewn cyfarfodydd gyda'r rhieni i feddwl sut bydd pethau'n gweithio pan fydd un person yn dychwelyd i gartref y teulu." (Athro, ysgol gynradd, Lloegr)

"Rydyn ni bob amser yn hyblyg iawn pan fydd rhieni'n methu mynd i ddigwyddiadau ysgol, fel bod pob cyfle'n cael ei roi iddyn nhw fynychu pan nad ydyn nhw'n gallu." (Pennaeth, Ysgol Gynradd, Cymru)

| Ymarfer sy'n dod i'r amlwg | Ymarfer sy'n datblygu | Gwreiddio ymarfer |
|--|--|--|
| Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwyso a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach | Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd | Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith |

Mae partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol yn helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o gymuned yr ysgol.

| MYFYRIO | HUNANASESIAD | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|--|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| 6.1 - I ba raddau ydych chi'n darparu cefnogaeth i deuluoedd y Lluoedd Arfog? | | | | | | dd/mm/yyyy |
| 6.2 - I ba raddau ydych chi'n helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i feithrin perthynas gref â'i gilydd a gyda chymuned yr ysgol? | | | | | | |
| 6.3 - I ba raddau ydych chi'n ymgysylltu â rhieni ac os yw'n briodol, â staff lleol y Lluoedd Arfog ynghylch lleoli a symud? | | | | | | |

Mae partneriaethau cryf rhwng y cartref a'r ysgol yn helpu teuluoedd y Lluoedd Arfog i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel rhan o gymuned yr ysgol.

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|--|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| 6.4 - I ba raddau mae lleoliadau, gwahanu neu symud sydd ar y gweill yn cael eu rhannu gyda'r holl staff yn briodol? | | | | | | dd/mm/yyyy |
| 6.5 - I ba raddau ydych chi'n cefnogi plant y Lluoedd Arfog i gyfathrebu â rhiant pan fyddant i ffwrdd? | | | | | | |

Mae rhwydweithiau a hyfforddiant cefnogol yn sicrhau bod yr holl staff yn deall ac yn cefnogi pob plentyn yn y Lluoedd Arfog.

Mae tystiolaeth yn awgrymu:

- Bod dealltwriaeth ysgol gyfan o gyd-destun plant y Lluoedd Arfog yn flaenoriaeth
- Gall athrawon cefnogol a gwybodus fod yn ffactorau amddiffynnol mewn sefyllfaoedd fel rhiant ar leoliad
- Gall profiadau plant y Lluoedd Arfog fod yn amrywiol
- Mae 5 cwestiwn allweddol i ysgolion eu hystyried



Sut gallai hyn edrych:

Nododd ymchwil y gallai ymarfer sy'n cefnogi'r egwyddor hon gynnwys:

- Uwch aelod dynodedig o staff sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu a bod hyfforddiant rheolaidd, er enghraifft ar symudiadau a lleoliadau sydd ar y gweill
- Hyfforddiant sy'n cael ei gynnal gan staff cefnogaeth fugeiliol arbenigol neu gan arbenigwyr allanol
- Cefnogi presenoldeb staff mewn cynadleddau lleol neu genedlaethol
- Aelodaeth o rwydweithiau lleol a phresenoldeb mewn cyfarfodydd a digwyddiadau i gael y wybodaeth ddiweddaraf
- Manteisio ar wybodaeth staff addysgu a chefnogi o gefndir y Lluoedd Arfog
- Trefnu hyfforddiant ar fater sy'n berthnasol i bob plentyn ond sy'n peri pryder penodol i blant y Lluoedd Arfog, megis gwahanu
- Darparu adnoddau cyflwyno syml sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn i'r holl staff allu deall a chael sgwrs â phlant y Lluoedd Arfog
- Gweithio gydag ysgolion eraill i greu rhwydweithiau a rhannu syniadau
- Estyn allan at dimau allgymorth prifysgolion cyfagos

Enghreifftiau o ymarfer:

“Mae aelod o'r UDA yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn ymwybodol o anghenion plant y Lluoedd Arfog ar draws yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r aelod o'r UDA yn ei gyfanwydd yn darllen yr ymchwil ddiweddaraf ac yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dosbarthu.”

(Athro, ysgol gynradd, Lloegr)

“Mae gennym berthynas dda gyda'r swyddog cymunedol. Mae'r cadlywydd adain yn rhan o'r llywodraethwyr felly os oes unrhyw beth yn codi, rydyn ni'n gwybod at bwy i droi am atebion a chefnogaeth ychwanegol.”

(Pennaeth, Ysgol Gynradd, Cymru)

“Mae gennym nifer o gynorthwywyr addysgu sydd â phrofiad o'r Lluoedd Arfog. Mae'r bobl hyn yn deall y fyddin a'r addysgu.”

(Athro, ysgol gynradd, Lloegr)

Ymarfer sy'n dod i'r amlwg

Bydd ysgolion sydd ag ymarferion yn dod i'r amlwg yn pwysu a mesur eu gweithgarwch ac efallai y byddant yn rhoi camau gweithredu ar waith i wella eu cefnogaeth, ond i raddau bach

Ymarfer sy'n datblygu

Bydd ysgolion ag ymarfer sy'n datblygu yn mynd i'r afael â'r egwyddor hon i raddau helaeth, ond gall hyn fod yn rhannol neu heb ei ehangu eto drwy fonitro a gwerthuso rheolaidd

Gwreiddio ymarfer

Bydd ysgolion sy'n gwreiddio ymarfer yn rhoi sylw llawn i'r egwyddor hon gyda gwaith sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd ac yn dangos tystiolaeth o effaith

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|---|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>7.1 - I ba raddau mae gennych bwynt cyswllt penodol i helpu staff i gefnogi plant a theuluoedd y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>7.2 - I ba raddau ydych chi'n darparu amser priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol o amgylch plant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | |
| <p>7.3 - I ba raddau ydych chi'n sicrhau bod yr holl staff a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu ysgolion yn gallu cael hyfforddiant o ansawdd uchel ar gefnogi plant y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | |

| MYFYRIO | TYSTIOLAETH | HUNANASESIAD | | | CAM GWEITHREDU | DYDDIAD |
|--|--|------------------------------|-------------|------------------|---|--|
| Ystyried y cwestiynau allweddol hyn gyda rhanddeiliaid | Nodi ymarfer cyfredol sy'n dangos lle rydych chi arni nawr | Asesu eich ymarfer presennol | | | Nodi camau i'w cymryd i wella eich cefnogaeth | Cytuno ar ddyddiad cau ar gyfer eich gweithredoedd |
| | | Yn dod i'r amlwg | Yn datblygu | Wedi'u gwreiddio | | |
| <p>7.4 - I ba raddau mae staff yn defnyddio ymchwil ac adnoddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth gefnogi plant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | dd/mm/yyyy |
| <p>7.5 - I ba raddau mae staff yn ymgysylltu â rhwydweithiau lleol a chenedlaethol sy'n canolbwyntio ar gefnogi plant a theuluoedd y Lluoedd Arfog?</p> | | | | | | |